

**GWASANAETHAU SMG**  
**TELERAU GWASANAETH**

**Dyddiad dod i rym:** Mawrth 2018

Mae'r Telerau Gwasanaeth hyn ynghyd â Pholisi Preifatrwydd SMG (Mae "Telerau") yn disgrifio'r telerau ac amodau ble bydd Service Management Group, LLC a'i is-gwmnïau ("SMG" neu "ni" neu "ninnau") yn cynnig mynediad i chi i wefannau, gwasanaethau a rhaglenni, yn cynnwys rhaglenni symudol, neu mae'r Telerau hyn yn gysylltiedig iddynt neu y cyfeirir atynt (yn gyfunol, "**Gwasanaethau SMG**").

Cyn cyrchu a defnyddio Gwasanaethau SMG, darllenwch y Telerau hyn yn ofalus; maent yn cyfateb i gytundeb cyfreithiol rhwng SMG a chi.

TRWY DDEFNYDDIO UNRHYW WASANAETHAU SMG, RYDYCH CHI'N CYTUNO I'R TELERAU HYN AC YN CADARNHAU EICH BOD YN ABL A CHYFREITHIOL GYMWYS I WNEUD HYNNY. OS YDYCH CHI'N DEFNYDDIO GWASANAETHAU SMG AR RAN EICH CYFLOGWR, TRWY DDERBYN Y TELERAU HYN FE BENNIR BOD CYTUNDEB RHWNG EICH CYFLOGWR AC SMG, A'CH BOD YN CYNRYCHIOLI A GWARANTU BOD GENNYCH AWDURDOD I RWYMO EICH CYFLOGWR I'R TELERAU HYN.

**NODYN PWYSIG:** Mae'r Telerau hyn yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n cyfyngu ar ein hatebolrwydd i chi ac yn gofyn i chi ddatrys unrhyw anghydfod gyda ni trwy gyflafareddu terfynol a rhwymol ar sail unigol ac nid yn rhan o unrhyw gyd-achos neu achos cynrychiadol. Gweler "DILYSRWYDD Y CONTRACT, YMWADIAD O WARANTAU a CHYFYNGIAD ATEBOLRWYDD" (Adran 7) a "DATRYS ANGHYDFODAU" (Adran 9) isod am ragor o wybodaeth.

**OS NAD YDYCH YN CYTUNO I'R HOLL DELERAU A SEFYDLIR YN Y TELERAU GWASANAETH HYN A PHOLISI PREIFATRWYDD SMG, NI ALLWCH DDEFNYDDIO GWASANAETHAU SMG.**

**1. NEWIDIADAU I DELERAU**

Nodir Dyddiad Dod i rym y Telerau hyn ar frig y dudalen hon. Wrth i ni ychwanegu nodweddion newydd, gallwn addasu'r Telerau hyn. Gall SMG addasu'r Telerau hyn ar unrhyw adeg trwy ddiweddarau'r Telerau. Rydych wedi eich rhwymo gan unrhyw addasiad o'r fath; felly dylech ymweld â'r dudalen hon yn achlysurol i adolygu'r Telerau hyn. Mae eich parhad i ddefnyddio Gwasanaethau SMG wedi cyhoeddi unrhyw Delerau wedi eu haddasu yn cyfateb i chi'n derbyn y Telerau wedi eu haddasu. Mae'r Telerau wedi eu haddasu yn disodli pob fersiwn blaenorol o gytundebau, hysbysiadau neu ddatganiadau ynghylch y Telerau, ond ni fydd newidiadau yn weithredol yn ôl-weithredol.

## 2. TELERAU ATODOL

Gall gwasanaethau penodol a gynigir gan neu trwy Gwasanaethau SMG, fel rhaglenni symudol, swîps, cystadlaethau cynigion a gwasanaethau eraill fod wedi eu llywodraethu gan amodau a thelerau atodol a gyflwynir ar y cyd â nhw ("Telerau Atodol"). Rhaid i chi gytuno i'r Telerau Atodol cyn defnyddio gwasanaethau o'r fath. Mae unrhyw Delerau Atodol i fod yn weithredol yn ychwanegol i'r Telerau hyn. Os bydd darpariaeth unrhyw Delerau Atodol yn gwrthdaro gydag unrhyw ddarpariaeth o'r Telerau hyn, bydd y Telerau Atodol yn drech na'r ddarpariaeth anghyson yn y Telerau hyn hyd eithaf yr anghysondeb yn unig.

## 3. PREIFATRUYDD/DIOGELWCH

Cyn defnyddio Gwasanaethau SMG, darllenwch Bolisi Preifatrwydd SMG yn ofalus i ddysgu am y data personol mae SMG yn ei gasglu ar Wasanaethau SMG, sut fyddwn ni'n ei brosesu a gyda phwy y gallwn ni rannu data personol. Gallwch weld copi o Bolisi Preifatrwydd SMG ar:

## 4. CYNNWYS SMG

Mae Gwasanaethau SMG, yn cynnwys unrhyw wybodaeth, graffeg, delweddau, gwaith celf, testun, clipiau fideo, casgliadau data, meddalwedd, clipiau fideo, nodau masnach, nodau gwasanaeth, cofnodion, enwau masnach ac unrhyw gynnwys arall a ddarperir ar, mewn neu trwy Wasanaethau SMG (yn gyfunol, "**Cynnwys SMG**") yn eiddo i SMG, ein his-gwmnïau, partneriaid, trwyddedwyr neu gwmnïau a gynrychiolir ac wedi eu diogelu dan gyfreithiau hawlfraint, patent nod masnach ac eraill yr Unol Daleithiau a thramor. Ac eithrio fel y sefydlwyd yn y drwydded gyfyngedig isod, neu fel sy'n ofynnol dan gyfraith berthnasol, ni ellir defnyddio, ailgynhyrchu, dyblygu, copïo, gwerthu, ail-werthu, cyrchu, addasu nac ecsbloetio fel arall, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yr hawlfraint, nodau masnach neu eiddo deallusol arall nac unrhyw ran o Wasanaethau SMG, ar gyfer unrhyw ddiben heb ein cydsyniad ysgrifenedig blaenorol. Gallai defnydd heb awdurdod o Gynnwys SMG dramgwyddo ar gyfreithiau hawlfraint, nodau masnach ac eraill.

Os byddwch chi'n cytuno i'r Telerau hyn (yn ogystal ag unrhyw amodau a thelerau perthnasol i Gynnwys SMG penodol), mae SMG yn rhoi trwydded bersonol, ddirymiadwy, nad yw'n neilltuedig, na ellir ei throsglwyddo a chyfyngedig (heb hawl i is-drwydded) i gyrchu a defnyddio Gwasanaethau SMG ac i lawrlwytho, argraffu ac/neu gopïo Cynnwys SMG i'ch defnydd personol eich hun ac yn amodol i'r Telerau hyn. Rydych chi'n cydnabod nad yw ac na fydd y cyfrinachau masnach ac eiddo deallusol a ymgorfforir yng Ngwasanaethau SMG yn cael eu trwyddedu neu ddatgelu fel arall i chi. Rydych chi'n cydnabod bod y cod HTML mae SMG yn ei greu i gynhyrchu'r tudalennau o'r Gwasanaethau wedi eu diogelu gan hawlfreintiau SMG. Cedwir pob hawl na ddyrannir yn hyn yn unig swydd gan SMG.

Rydych chi'n cytuno oni bai bod SMG yn eich darparu ag awdurdodiad ysgrifenedig blaenorol i wneud hynny, ni fyddwch yn:

- a. ymgorffori unrhyw Gynnwys SMG i unrhyw waith arall (fel eich gwefan eich hun) neu'n defnyddio Cynnwys SMG mewn unrhyw fodd cyhoeddus neu fasnachol;
- b. newid unrhyw hysbysiad am hawlfraint, nodau masnach neu hawliau eiddo deallusol eraill a allai fod yn rhan o Gynnwys SMG; neu
- c. creu "dolen ddofn" i unrhyw rai o Wasanaethau SMG (h.y., dolen i unrhyw dudalen ar wahân i hafan un o Wasanaethau SMG).

Mae nodau masnach, logos a nodau gwasanaeth (y "Nodau") a arddangosir yn neu trwy Wasanaethau SMG yn eiddo i SMG neu drydydd partion. Fe'ch gwaherddir rhag defnyddio'r Nodau heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol SMG neu drydydd parti o'r fath. Os hoffech chi

wybodaeth ar sut i gael caniatâd SMG i ddefnyddio Cynnwys SMG, anfonwch e-bost at [privacyofficer@smg.com](mailto:privacyofficer@smg.com).

## 5. DEFNYDDIO'R GWASANAETHAU SMG

- 5.1. Cymhwyster: Ni fwriedir i Wasanaethau SMG gael eu defnyddio gan blant sydd dan oed ble caniateir iddynt yn gyfreithiol yn y wlad ble maent yn preswyllo i roi cydsyniad i brosesu eu data personol. Os ydych chi dan oed cydsynio yn eich gwlad, ni allwch ddefnyddio Gwasanaethau SMG.
- 5.2. Eich Cyfrif: Efallai y bydd yn ofynnol i chi greu cyfrif (“**Cyfrif**”) i ddefnyddio rhai Gwasanaethau SMG penodol. Rydych chi'n cytuno i ddarparu, cynnal a diweddarau gwybodaeth gywir, gyfredol a chyflawn amdanoch chi'ch hun. Rydych yn cytuno i beidio dynwared unrhyw berson neu endid na chamliwio eich hunaniaeth neu dadogaeth gydag unrhyw berson neu endid, yn cynnwys defnyddio enw defnyddiwr, cyfrinair neu wybodaeth cyfrif arall unrhyw berson, neu enw, tebygrwydd, llais, delwedd neu ffotograff person arall. Rydych yn cytuno ymhellach i'n hysbysu yn [privacyofficer@smg.com](mailto:privacyofficer@smg.com) o unrhyw ddefnydd heb awdurdod o'ch enw defnyddiwr, cyfrinair neu wybodaeth cyfrif arall, neu unrhyw doriad diogelwch arall y byddwch yn ymwybodol ohono yn ymwneud â Gwasanaethau SMG.

**Trwy greu Cyfrif, rydych chi'n cytuno y gall SMG gysylltu â chi'n defnyddio'r cyfeiriad e-bost a roddwch wrth ysgogi eich Cyfrif.**

Peidiwch â gadael i eraill ddefnyddio'ch Cyfrif. Rydych chi'n gyfrifol am bob defnydd o'ch Cyfrif, yn cynnwys unrhyw ddefnydd gan eraill yr ydych wedi darparu mynediad i'ch Cyfrif iddynt.

### 5.3. Eich Cyfrifoldebau:

#### **Eich Cytundeb i Ddefnyddio Gwasanaethau SMG i Ddibenion Cyfreithlon yn Unig.**

Rydych yn cytuno y byddwch yn defnyddio Gwasanaethau SMG i ddibenion cyfreithlon yn unig. Ni fyddwch yn defnyddio Gwasanaethau SMG mewn unrhyw fodd allai ddifrodi, analluogi, gorlwytho, neu amharu ar weinyddwyr neu rwydweithiau SMG, neu ymyrryd â defnydd a mwynhad unrhyw barti arall o Wasanaethau SMG.

#### **Eich Cytundeb i Beidio Defnyddio Gwasanaethau SMG i Ddibenion Anghyfreithlon neu Heb Awdurdod.**

Rydych yn cytuno hefyd na fyddwch yn ceisio cael mynediad heb awdurdod i Wasanaethau SMG, cyfrifon defnyddwyr eraill neu systemau neu rwydweithiau cyfrifiadurol SMG, trwy hacio, cloddio am gyfrineiriau neu unrhyw ddull arall. Heb gyfyngu ar unrhyw un o'r blaenorol, rydych chi'n cytuno na fyddwch yn (ac na fyddwch yn annog unrhyw drydydd parti i):

- copïo, newid, addasu, cyfieithu, teilwra o chwith, dadgodio neu ymgeisio mewn unrhyw fodd arall i ddeillio neu gael mynediad i unrhyw ran o Wasanaethau SMG neu Gynnwys SMG;
- tynnu unrhyw hawlfraint, nod masnach neu hysbysiadau eiddo perchnogol eraill a gynhwysir yn y Gwasanaethau SMG neu Gynnwys SMG;

- c. trechu, analluogi, neu amharu fel arall gyda nodweddion cysylltiedig â diogelwch neu atal twyll ein Gwasanaethau neu nodweddion sy'n atal neu gyfyngu defnydd neu gopïo o unrhyw Gynnwys SMG neu orfodi cyfyngiadau ar ddefnydd o'n Gwasanaethau neu Gynnwys SMG;
- d. camddefnyddio Gwasanaethau trwy gyflwyno firysau, Ceffylau Pren Troea, mwydod, bomiau rhesymeg, ysbïwedd, maleiswedd, neu ddeunydd maleisus neu dechnolegol niweidiol eraill;
- e. defnyddio unrhyw robot, pry cop, rhaglen chwilio/ad-alw safle, neu ddyfais, broses neu fodd awtomataidd arall i gyrchu, ad-alw, crafu neu fynegeio unrhyw ran o Wasanaethau SMG;
- f. rhentu, prydlesu, benthyca, gwerthu, is-drwyddedu, neilltuo, dosbarthu, cyhoeddi, trosglwyddo neu ddarparu Gwasanaethau SMG fel arall, nac unrhyw nodweddion neu swyddogaeth o Wasanaethau SMG, i unrhyw drydydd parti am ba bynnag reswm, yn cynnwys trwy ddarparu Gwasanaethau SMG ar rwydwaith ble gellir ei gyrchu gan fwy nag un ddyfais ar y tro;
- g. ailfformatio neu fframio unrhyw ran o'r tudalennau gwe sy'n rhan o Wasanaethau SMG;
- h. creu mwy nag un Cyfrif trwy fodd awtomataidd neu dan rith twyllodrus neu ffug; neu
- i. gasglu neu storio data personol am unrhyw ddefnyddiwr arall heb ei ganiatâd/chaniatâd ysgrifenedig blaenorol.

**Goblygiadau ar gyfer Defnydd Heb Awdurdod neu Gamddefnydd o Wasanaethau SMG.** Rydych chi'n cytuno y bydd eich hawl i ddefnyddio Gwasanaethau SMG yn terfynu ar unwaith os byddwch yn tramgwyddo ar unrhyw rai o'r rheolau hyn, a bod gan SMG yr hawl i derfynu eich mynediad at Wasanaethau SMG heb rybudd pellach os byddwch yn tramgwyddo ar unrhyw rai o'r gofynion neu waharddiadau a sefydlir yn y Telerau hyn neu mewn Telerau Perthnasol atodol. Rydych hefyd yn cytuno i ddychwelyd neu ddinistrio unrhyw gopïau o Ddeunyddiau Safle a wnaethoch os byddwn yn gofyn i chi wneud hynny.

Mae defnydd heb awdurdod a chamddefnydd o Wasanaethau SMG wedi eu gwahardd yn llwyr; yn ddiybnnol ar yr amgylchiadau, gallai arwain at hawliad sifil am ddifrod ac/neu erlyniad troseddol yn eich erbyn. Mae SMG yn cadw'r hawl i adrodd unrhyw doriad o'r Telerau hyn neu ddefnydd heb awdurdod neu gamddefnydd o Wasanaethau SMG i awdurdodau gorfodi'r gyfraith. Mewn achos o unrhyw ddefnydd heb awdurdod neu gamddefnydd o Wasanaethau SMG, bydd eich hawl i ddefnyddio Gwasanaethau SMG yn terfynu ar unwaith, a gall SMG derfynu eich mynediad i Wasanaethau SMG heb rybudd.

**Eich Cyfrifoldeb am Daliadau, Ffioedd a Chostau eraill yn gysylltiedig i Ddefnydd o Wasanaethau SMG (yn cynnwys Ffioedd Negeseuon Testun).** Rydych chi'n gyfan gwbl gyfrifol am unrhyw a phob taliad, ffi a chostau eraill yn gysylltiedig i ddefnydd o Wasanaethau SMG. Os ydych chi'n cyrchu ac yn defnyddio Gwasanaethau SMG ar eich ffôn deallus, llechen neu ddyfais symudol arall, rhaid bod gennych chi wasanaeth diwifr trwy Wi-Fi neu ddarparwr gwasanaeth symudol cyfranogol. Bydd rhai gwasanaethau penodol yn galw am alluedd negesa testun (SMS neu MMS). Rydych chi'n cytuno eich bod yn gyfan gwbl gyfrifol am yr holl daliadau negesa a data fydd yn codi gan eich darparwr gwasanaeth symudol. Ni fyddwn yn codi tâl ar wahân am unrhyw wasanaethau negeseuon testun a gynigiwn, ond efallai y codir am negeseuon a data. Mae'r holl daliadau yn cael eu bilio gan ac yn daladwy i'ch darparwr gwasanaeth symudol. Cysylltwch â'ch darparwr gwasanaeth symudol am gynlluniau prisio a manylion. Nid yw SMG yn atebol am unrhyw oedi o ran darparu negeseuon testun nac unrhyw fethiant i ddarparu negeseuon testun oherwydd mae danfoniad yn amodol i drosglwyddiad effeithiol gan eich darparwr gwasanaeth symudol. Efallai na fydd negeseuon testun ar gael ym mhob ardal ar bob adeg.

**Goblygiadau eich Cytundeb i Optio i Mewn i Dderbyn Negeseuon Testun.** Unwaith y byddwch yn optio i mewn i dderbyn negeseuon testun gennym, bydd amllder y negeseuon testun a anfonwch atoch yn ddibynnol ar eich trafodion gyda ni. **Trwy gytuno i dderbyn negeseuon testun, rydych chi'n deall ac yn cytuno y gall SMG ddefnyddio system ddeialu awtomatig i anfon negeseuon testun atoch chi, ac yn deall hefyd nad yw'ch cydsyniad i dderbyn negeseuon testun yn ofynnol er mwyn i chi allu prynu unrhyw nwyddau neu wasanaethau.**

- 5.4. Cyflwyniadau. O bryd i'w gilydd gall SMG gynnig cyfleoedd i chi a defnyddwyr eraill i bostio'n wirfoddol neu gyflwyno fel arall raddiadau, awgrymiadau, sylwadau fideo, syniadau, nodiadau, cysyniadau neu wybodaeth neu ddeunydd arall i neu trwy Gwasanaethau SMG (yn gyfunol, "**Cyflwyniadau**").

Rydych chi yn a byddwch yn parhau i fod yn gwbl gyfrifol am eich Cyflwyniadau a goblygiadau cyflwyno a phostio Cyflwyniadau o'r fath. Byddwch yn gyfan gwbl atebol am unrhyw ddifrod yn deillio o unrhyw drosedd hawlfraint, hawliau perchnogol neu unrhyw niwed arall yn deillio o'ch Cyflwyniadau. Wrth gyflwyno neu bostio Cyflwyniadau, dylech gyfyngu, i'r fath raddau ag sy'n bosibl, ar faint o ddata personol fyddwch chi'n ddarparu oherwydd gallai Cyflwyniadau fod yn gysylltiedig i chi yn ddibynnol ar y manylion a roddwch.

Trwy anfon, postio neu drosglwyddo Cyflwyniadau i SMG (ac/neu ein dynodedig[ion]) neu unrhyw faes o Wasanaethau SMG, rydych yn caniatáu, neu'n gwarantu eich bod chi neu unrhyw berchennog arall o'r deunydd a gyflwynwch wedi caniatáu'n benodol hawl bydeang, nad yw'n gyfyngedig, is-drwyddedadwy (trwy sawl haen), trosglwyddadwy, heb freindal, parhaol, di-arlw'n ôl i SMG a'n dynodedigion i ddefnyddio, atgynhyrchu, is drwyddedu (trwy sawl haen), dosbarthu, creu gweithiau deilliadol o, perfformio a mewnforio eich Cyflwyniadau (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) mewn unrhyw gyfrwng sydd nawr yn hysbys neu a ddatblygir wedyn, ar gyfer unrhyw ddiben, yn fasnachol neu fel arall, heb iawndal i chi. Mewn geiriau eraill, mae gan SMG hawl awtomatig i ddefnyddio eich Cyflwyniadau -- yn cynnwys atgynhyrchu, datgelu, cyhoeddi neu ddarlledu eich Cyflwyniadau -- unrhyw le, unrhyw bryd, mewn unrhyw gyfrwng ac am unrhyw ddiben heb dalu unrhyw ffi neu fod ag unrhyw rwymedigaeth i chi. Rydych hefyd yn caniatáu i unrhyw ddefnyddiwr arall gyrchu, gweld, storio neu atgynhyrchu eich Cyflwyniad at ddefnydd personol y defnyddiwr hwnnw. Rydych felly'n rhoi'r hawl i SMG (ac/neu ein dynodedigion) ddefnyddio unrhyw rai o'ch Cyflwyniadau i unrhyw ddiben unrhyw le. Nid oes gennych hawl dan unrhyw amgylchiadau i unrhyw fath o daliad os bydd SMG (ac/neu ei ddynodedig[ion]) yn defnyddio un o'ch Cyflwyniadau. Pennir bod pob Cyflwyniad yn anghyfrinachol a diberchenogaeth.

Gallai Cyflwyniadau a bostiwch gael eu darparu i'r cyhoedd. Rydych chi'n cydnabod nad oes gennych unrhyw ddisgwyliad o breifatrwydd parthed unrhyw Gyflwyniadau. Rydych yn cydnabod ymhellach eich bod yn gwneud Cyflwyniadau'n wirfoddol a dan eich menter eich hun. Dylech ddefnyddio craffter wrth bostio gwybodaeth, sylwadau neu gynnwys arall parthed SMG, Cleientiaid SMG, neu unrhyw endid neu berson arall. Efallai y byddwch yn cael eich dal yn gyfreithiol gyfrifol am unrhyw ddifrod a ddioddefir gan ddefnyddwyr eraill, SMG, neu drydydd partion o ganlyniad i Gyflwyniadau difenwol neu y gellir gweithredu arnynt yn gyfreithiol fel arall, gennych chi. Wrth bostio Cyflwyniad, gallwch ddewis cysylltu'r Cyflwyniad i'ch enw defnyddiwr neu ffug enw oni bai bod cyfreithiau perthnasol yn y wlad ble rydych yn preswyllo yn gofyn fel arall.

Nid yw SMG yn gyfreithiol gyfrifol am unrhyw Gyflwyniadau a wneir gan ddefnyddwyr hyd yn oed os yw Cyflwyniadau o'r fath yn ddifennol neu y gellir gweithredu arnynt fel arall. Nid yw SMG yn gyfrifol am, ac nid yw'n cefnogi, barnau, cyngor nac argymhellion a bostir neu a gyflwynir fel arall i neu trwy Wasanaethau SMG. Mae SMG yn ymwrthod yn benodol ag unrhyw a phob atebolrwydd mewn perthynas â Chyflwyniadau o'r fath. Nid yw SMG yn cadarnhau na dilysu cymwysterau, cefndir, na galluoedd defnyddwyr na'r wybodaeth maent yn postio i neu trwy unrhyw Wasanaethau SMG. Felly, mae SMG yn eich annog i ddefnyddio synnwyr cyffredin a chrafter wrth baratoi eich Cyflwyniadau.

Trwy bostio Cyflwyniad, rydych chi'n cytuno, yn cynrychioli ac yn gwarantu fod eich Cyflwyniad:

- a. yn wir a chywir;
- b. yn ymwneud â phwnc neu thema benodol o Wasanaethau SMG;
- c. ddim yn tramgwyddo ar, camddefnyddio na throeddu yn erbyn hawlfraint, nod masnach, patent, hawl llenyddol, cyfrinach masnach, preifatrwydd, cyhoeddusrwydd, perchnogol, cytundebol nac arall trydydd parti;
- d. ddim yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n datgelu pwy yw unrhyw berson neu wybodaeth sydd fel arall yn cynnwys data personol unrhyw berson oni bai bod gennych ganiatâd ysgrifenedig blaenorol y person hwnnw;
- e. ddim yn gwneud unrhyw hawliadau di-sail am unrhyw drydydd parti neu ei gynnyrch neu wasanaethau;
- f. ddim yn cynnwys unrhyw sylwadau athrodus, difennol, ffug, camarweiniol, aflednais, aflan, pornograffig, treisgar, rhagfarnlyd, rhywiol, atgas, ymosodol, bygythiol, aflonyddol, gwrthgymdeithasol, rhywiol neu hiliol dramgwyddus neu unrhyw gynnwys arall sydd naill ai'n niweidio neu y gellir disgwyl yn rhesymol i niweidio unrhyw berson neu endid;
- g. ddim yn anghyfreithiol ac nad yw'n annog neu eirioli weithgaredd anghyfreithiol na thrafod gweithgareddau anghyfreithiol gyda'r bwriad o'u cyflawni;
- h. ddim yn fasnachol na'n ymwneud â busnes, a ddim yn hysbysebu na chynnig gwerthu unrhyw gynnyrch neu wasanaethau (p'un ai er elw neu beidio), cymell eraill (yn cynnwys cymelliadau am roddion neu gyfraniadau);
- i. ddim yn cynnwys firws nac elfen niweidiol arall, neu fel arall yn ymyrryd, amharu ar neu niweidio Gwasanaethau SMG neu unrhyw rwydwaith gysylltiedig, neu i ymyrryd fel arall gyda defnydd a mwynhad unrhyw berson neu endid o Wasanaethau SMG; a
- j. yn cydymffurfio gyda'r holl gyfreithiau, rheoliadau, rheolau, polisiau a thelerau cytundebol yn ymwneud â'ch Cyflwyniad, yn ogystal ag i Wasanaethau SMG yr ydych yn postio iddynt neu trwyddynt neu fel arall yn darparu eich Cyflwyniad, yn cynnwys cyfyngiadau oed.

Rydych chi'n cydnabod ac yn cytuno bod gan SMG yr hawl, ond nid rhwymedigaeth, i addasu, tynnu neu wrthod cyhoeddi neu ganiatáu i gyhoeddi unrhyw Gyflwyniad. Nid yw SMG yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb nac unrhyw atebolrwydd am unrhyw Gyflwyniad a bostir gennych chi nac unrhyw drydydd parti. Ni all ac nid yw SMG sicrhau bod yr holl ddefnyddwyr yn cydymffurfio â'r darpariaethau hyn ac, fel rhyngoch chi ac SMG, rydych felly'n tybio'r holl risg o niwed neu anaf yn deillio o unrhyw ddiffyg cydymffurfriad o'r fath.

Mae SMG yn eich annog yn gryf i leihau datgeliad unrhyw ddata personol yn eich Cyflwyniadau oherwydd gall pobl eraill weld a defnyddio'r data personol yn eich Cyflwyniadau. Nid yw SMG yn gyfrifol am wybodaeth y dewiswch gyfathrebu trwy Gyflwyniadau.

## **6. GWASANAETHAU A SAFLEOEDD TRYDYDD PARTI**

Gallai Gwasanaethau SMG gynnwys dolenni i wefannau a gwasanaethau trydydd parti, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol (yn gyfunol, “**Gwasanaethau Cysylltiedig**”). Nid yw Gwasanaethau Cysylltiedig dan reolaeth SMG ac nid yw SMG yn gyfrifol am Wasanaethau Cysylltiedig nac am unrhyw wybodaeth na ddeunyddiau ar, neu unrhyw fath o drosglwyddiad a dderbyniwyd gan, unrhyw Wasanaeth Cysylltiedig. Nid yw cynnwys dolen yn ymhlygu cymeradwyaeth gan SMG o'r Gwasanaeth Cysylltiedig nac unrhyw gysylltiad â gweithredwyr y Gwasanaeth Cysylltiedig. Nid yw SMG yn ymchwilio, dilysu na monitro Gwasanaethau Cysylltiedig. Mae SMG yn darparu dolenni i Wasanaethau Cysylltiedig er cyfleuster i chi yn unig. Rydych yn cyrchu Gwasanaethau Cysylltiedig yn ôl eich menter eich hun.

## **7. DILYSRWYDD CONTRACT, YMWADIAD O WARANTAU A CHYFYNGIAD AR ATEBOLRWYDD**

Mae SMG yn gwarantu bod SMG wedi ymroi i'r Telerau hyn yn ddilys a bod ganddo bŵer cyfreithiol i wneud hynny. Rydych chi'n gwarantu eich bod wedi ymroi i'r Telerau hyn yn ddilys a bod gennych bŵer cyfreithiol i wneud hynny.

### **AR WAHÂN I FEL Y MYNEGWYD YN BENODOL UCHOD, MAE GWASANAETHAU SMG YN CAEL EU DARPARU "FEL Y MAE" AC "FEL SYDD AR GAEL" HEB WARANT O UNRHYW FATH, YN BENODOL NEU'N YMHLYG.**

Nid yw SMG yn gwneud unrhyw sylwadau na gwarantau ynghylch cywirdeb, dibynadwyedd, cyflawnrwydd na phrydlondeb Cynnwys SMG na'r canlyniadau i'w cael o ddefnyddio Gwasanaethau SMG a Chynnwys SMG. Mae defnydd o Wasanaethau SMG yn ôl eich menter eich hun. Gwneir newidiadau achlysurol i Wasanaethau SMG a Chynnwys SMG. Gellir gwneud y newidiadau hyn ar unrhyw adeg. Gall rhywfaint o gynnwys o fewn Gwasanaethau SMG gael ei ddarparu gan drydydd partion. Nid yw SMG yn gyfrifol am unrhyw gynnwys trydydd parti o'r fath.

DARPERIR GWASANAETHAU SMG A CHYNNWYS SMG AR SAIL "FEL Y MAE" HEB UNRHYW WARANTAU O UNRHYW FATH. I'R FATH RADDAU AG Y CANIATEIR GAN DDEDDF BERTHNASOL., MAE SMG YN YMWADU'N BENODOL POB GWARANT AC AMOD O UNRHYW FATH, YN CYNNWYS POB GWARANT AC AMOD YMHLYG O FARCHNADWYEDD, ADDASRWYDD I DDIBEN PENODOL, TEITL, PEIDIO TROSEDDU AR HAWLIAU PERCHNOGOL NEU DRYDYDD PARTI, RHYDDID RHAG DIFFYGION, DEFNYDD DI-DOR A PHOB GWARANT YMHLYG O UNRHYW GWRS O DDELIO NEU DDEFNYDD MASNACH.

NID YW SMG YN GWARANTU Y BYDD (A) GWASANAETHAU SMG YN BODLONI EICH GOFYNION, (B) GWEITHREDIAD GWASANAETHAU SMG YN DDI-DOR NEU'N RHYDD O FIRYSAU NEU WALLAU NEU (C) Y BYDD GWALLAU YN CAEL EU CYWIRO. OS YW'CH DEFNYDD O WASANAETHAU SMG NEU GYNNWYS SMG YN ARWAIN AT FOD ANGEN GWASANAETHU NEU AMNEWID OFFER, NEU GOLLI ELW NEU DDATA, NI FYDD SMG YN GYFRIFOL AM Y COSTAU HYNNY. NID YW UNRHYW GYNGOR LLAFAR NEU YSGRIFENEDIG A DDARPERIR GAN SMG NEU EI ASIANTAU AWDURDODEDIG YN CREU GWARANT AC NI FYDD YN CREU GWARANT. NID YW RHAI AWDURDODAU YN

CANIATÁU EITHRIO GWARANTAU YMHLYG SY'N GOLYGU NA FYDD RHAI NEU'R CYFAN O'R EITHRIADAU UCHOD YN BERTHNASOL I CHI.

**MAE EICH DEFNYDD O WASANAETHAU SMG YN ÔL EICH MENTER EICH HUN.** Os ydych chi'n anfon gyda Gwasanaethau SMG, yn cynnwys unrhyw gynnwys mewn Gwasanaethau SMG, eich unig adferiad yw terfynu defnydd o Wasanaethau SMG.

RYDYCH CHI'N CYTUNO NA FYDD SMG NAC UNRHYW DRYDYDD PARTIÖN Y CYFEIRIR ATYNT AR UNRHYW UN O'R GWASANAETHAU SMG HYN YN ATEBOL AM (A) IAWNDAL O UNRHYW FATH, YN CYNNWYS UNIONGYRCHOL, ANUNIONGYRCHOL, ARBENNIG, ENGHREIFFTIOL, ACHLYSUROL, ÔL-DDILYNOL NA CHOSBOL NAC UNRHYW FATH ARALL O IAWNDAL (YN CYNNWYS, OND NID YN GYFYNGEDIG I, GAFFAEL NWYDDAU NEU WASANAETHAU AMNEWID, COLLI DEFNYDD, DATA NEU ELW, NEU AMHARIAD I'R BUSNES), SUT BYNNAG Y MAE WEDI EI ACHOSI A DAN UNRHYW THEORI O ATEBOLRWYDD YN DEILLIO MEWN UNRHYW FODD MEWN PERTHYNAS Â'R TELERAU HYN NEU DDEFNYDD NEU ANALLU I DDEFNYDDIO GWASANAETHAU SMG A'U CYNNWYS, P'UN AI'N SEILIEDIG MEWN GWARANT, CONTRACT, ATEBOLRWYDD CAETH, CAMWEDD (YN CYNNWYS ESGEULUSTOD NEU FEL ARALL), NEU UNRHYW THEORI GYFREITHIOL ARALL HYD YN OED OS YW SMG WEDI EI GYNGHORI O'R POSIBILIAID O DDIFROD O'R FATH, NEU (B) AR GYFER UNRHYW GAIS, HAWLIAD NEU IAWNDAL ARALL PA BETH BYNNAG YN DEILLIO O NEU O GANLYNIAD I NEU MEWN PERTHYNAS Â'CH DEFNYDD O WASANAETHAU SMG. NID YW'R YMWADIAD HWN O ATEBOLRWYDD YN BERTHNASOL I ATEBOLRWYDD YN DEILLIO O'N HESGEULUSTOD DYBRYD NA CHAMYMDDWYN BWRIADOL, AC NI FYDD YN BERTHNASOL I'R FATH RADDAU AG Y MAE WEDI EI WAHARDD GAN DDEDDF BERTHNASOL.

OS AM BA BYNNAG RESWM Y BYDD YR YMWADIAD O WARANTAU NEU GYFYNGIADAU ATEBOLRWYDD A GYFLWYNIR YN YR ADRAN 7 YMA YN AMHERTHNASOL NEU NA ELLIR EU GWEITHREDU AM BA BYNNAG RESWM, BYDD UCHAFSWM ATEBOLRWYDD SMG AM UNRHYW FATH O IAWNDAL WEDI EI GYFYNGU I \$1,000.

**Rydych chi'n cydnabod ac yn cytuno fod y cyfyngiadau a nodir uchod o atebolrwydd, ynghyd â darpariaethau eraill yn y Telerau hyn sy'n cyfyngu ar atebolrwydd, yn delerau allweddol ac na fyddai SMG yn fodlon rhoi'r hawliau i chi a sefydlir yn y Telerau hyn oni bai eich bod yn cytuno i'r cyfyngiadau atebolrwydd a nodir uchod.**

OS YDYCH CHI'N PRESWYLIO YNG NGHALIFFORNIA, RYDYCH YN ILDIO EICH HAWLIAU PARTHED COD SIFIL CALIFFORNIA ADRAN 1542, SY'N DWEUD "NAD YW RHYDDHAD CYFFREDINOL YN YMESTYN I HAWLIADAU NAD YW'R CREDYDWR YN GWYBOD NEU'N AMAU I FODOLI O'I BLAID AR ADEG GWEITHREDU'R RHYDDHAD, SYDD ANGEN, OS YW'N HYSBYS GANDDO, I FOD WEDI EFFEITHIO'N FATEROL AR EI SETLIAD GYDA'R DYLEDWR."

## **8. DIGOLLEDIAD**

Rydych chi'n cytuno, ar eich traul eich hun, i amddiffyn, ddiogledu, a dal SMG a'i gleientiaid, cyfarwyddwyr, swyddogion, cyflogeion ac asiantau yn ddiniwed rhag ac yn erbyn pob colled, atebolrwydd, hawliad, gweithred neu orchymyn, yn cynnwys heb gyfyngiad unrhyw ddifrod ariannol, treuliau, costau amddiffyn, yn cynnwys ffioedd atwrnai a chyfrifyddu rhesymol, a ddygwyd yn erbyn SMG gan unrhyw drydydd parti yn deillio o (a) eich Cyflwyniadau, (b) eich defnydd o Wasanaethau SMG neu (c) eich trosedd o unrhyw rai o'r Telerau hyn, hawliau trydydd parti neu ddeddf berthnasol. Nid yw'r ddarpariaeth indemniad yma yn berthnasol i'r fath raddau ag y gwaharddir gan ddeddfau perthnasol. Mae SMG yn cadw'r hawl, ar ei gostau ei



hun, i dybio amddiffyn a rheolaeth allgynhwysol o unrhyw fater sy'n amodol i indemniad trwy hyn. Ni ellir gwneud unrhyw setliad sy'n effeithio ar hawliau neu rwymedigaethau SMG heb gymeradwyaeth o flaen llaw gan SMG.

## **9. DATRYS ANGHYDFODAU**

Ac eithrio am unrhyw anghydfodau yn ymwneud â hawliau eiddo deallusol neu rwymedigaethau, neu unrhyw hawliadau o drosedd, a fydd wedi ei lywodraethu gan gyfraith ffederal Unol Daleithiau America, bydd unrhyw anghydfod rhyngoch chi ac SMG yn deillio o, neu'n ymwneud â'r Telerau hyn wedi eu llywodraethu gan a'u dehongli a gorfodi yn unol â chyfreithiau Talaith Missouri (Unol Daleithiau America) waeth pa wlad tarddiad neu ble fyddwch chi'n cyrchu'r Gwasanaethau, er gwaethaf unrhyw wrthdaro mewn egwyddorion cyfraith. Bydd pob anghydfod o'r fath yn cael ei ddehongli yn unol â chyfreithiau Missouri sy'n berthnasol i gontractau a sefydlir ac a berfformir o fewn Talaith Missouri. Rydych chi ac SMG yn cytuno na fydd Confensiwn Cytundebau ar gyfer Gwerthu Nwyddau Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig yn berthnasol i'r dehongliad o'r Telerau hyn.

**RYDYCH CHI AC SMG YN CYTUNO Y GALL POB UN GYFLWYNO HAWLIADAU YN ERBYN Y LLALL AR SAIL UNIGOL YN UNIG AC NID FEL ACHWYNYDD NEU AELOD CYFUNOL MEWN UNRHYW WEITHREDU CYFUNOL NEU GYNRYCHIADOL ARWYDDOL.**

**RYDYCH CHI AC SMG YN CYTUNO Y BYDD POB HAWLIAD YN CAEL EI DDATRYS TRWY GYFLAFAREDDU RHWYMOL YN Y MODD A BENNIR YN YR ADUAN 9 YMA AC Y BYDDWCH CHI AC SMG YN ILDIO UNRHYW HAWL I DDOD Â HAWLIADAU O'R FATH GERBRON UNRHYW LYS CYFREITHIOL. EFALLAI NA FYDD HAWLIAU FYDDAI GENNYCH PETAECH YN MYND I'R LLYS, MEGIS MYNEDIAD AT GANFYDDIAD, AR GAEL NEU'N GYFYNGEDIG MEWN CYFLAFAREDDU.**

Bydd unrhyw anghydfod rhyngoch chi ac SMG a'i asiantau, cyflogeion, swyddogion, cyfarwyddwyr, penaethiaid, olynwyr, rhai a benodir, is-gwmnïau neu gwmnïau cysylltiedig yn deillio o neu'n ymwneud â'r Telerau hyn a'u dehongliad neu doriad, derfyniad neu ddilysrwydd, y perthnasau sy'n deillio o'r Telerau hyn, yn cynnwys anghydfodau ynghylch dilysrwydd neu allu i orfodi'r Telerau hyn i gyflafareddu (yn gyfunol, "**Anghydfodau a Gynhwysir**") yn destun cyflafareddu yn Nhalath Missouri a weinyddir gan yr American Arbitration Association (AAA) yn unol â'i reolau (yn cynnwys ei reolau a gweithdrefnau ar gyfer anghydfodau yn ymwneud â defnyddwyr) sy'n effeithiol ar y dyddiad hwnnw. Cyn cychwyn unrhyw gyflafareddiad, bydd y parti cychwynnol yn rhoi o leiaf 60 niwrnod o rybudd ysgrifenedig o flaen llaw o'i fwriad i ffeilio am gyflafareddiad. Bydd SMG yn darparu rhybudd o'r fath i'r cyfeiriad e-bost a roddoch pan wnaethoch greu'ch cyfrif neu trwy e-bost at gyfeiriad e-bost yr ydych wedi ei ddarparu i SMG fel arall; rhaid i chi ddarparu hysbysiad o'r fath i SMG trwy e-bost at [privacyofficer@smg.com](mailto:privacyofficer@smg.com).

Bydd talu'r holl ffioedd ffeilio, gweinyddu a chyflafareddwr wedi eu llywodraethu gan reolau'r AAA. Fodd bynnag, os byddwch yn gallu arddangos y bydd costau cyflafareddiad yn waharddol i chi o gymharu â chostau mynd i'r llys, bydd SMG yn talu cymaint o'r ffioedd ffeilio, gweinyddu a chyflafareddwr ag y mae'r cyflafareddwr yn pennu i fod yn angenrheidiol i atal y cyflafareddiad rhag bod yn waharddol i chi oherwydd cost. Os yw'r cyflafareddwr yn pennu bod yr hawliad(au) a nodwch yn y cyflafareddiad yn wamal, rydych yn cytuno i ad-dalu SMG am yr holl ffioedd cysylltiedig â'r cyflafareddiad a dalodd SMG ar eich rhan y byddai fel arall yn ofynnol i chi dalu dan reolau'r AAA.

Bydd un cyflafareddwr yn cael ei ddethol yn unol â Rheolau Cyflafareddiad Masnachol yr AAA. Bydd y cyflafareddiad yn cael ei gyflawni yn Saesneg. Bydd gan y cyflafareddwr y pŵer i

ganiatáu pa bynnag ryddhad fyddai ar gael mewn llys dan gyfraith neu mewn ecwiti a bydd unrhyw ddyfarniad gan y cyflafareddwr yn derfynol a rhwymol ar bob un o'r partïon a gellir ei nodi fel dyfarniad mewn unrhyw lys neu awdurdodaeth cymwys. Fodd bynnag, ni fydd gan y cyflafareddwr bŵer i ddyfarnu iawndal cosbol neu enghreifftiol, ac mae pob parti yn ildio hawl i hyn. Bydd y cyflafareddwr yn gweithredu unrhyw gyfraith berthnasol a darpariaethau'r Telerau hyn; byddai methiant i wneud hyn yn cael ei bennu i fod yn ormodedd o awdurdod cyflafareddu ac yn sail am adolygiad barnwrol. Rhaid i benderfyniad y cyflafareddwr gynnwys esboniad ysgrifenedig a pharhau i fod yn gyfrinachol. Mae SMG a chithau yn cytuno y bydd unrhyw Anghydfod a Gynhwysir yn cael ei gyflwyno ar gyfer cyflafareddiad ar sail unigol yn unig. **NID OES GAN SMG NA CHITHAU HAWL I GYFLAFAREDDU UNRHYW ANGHYDFOD A GYNHWYSIR FEL ACHOS CYFUNOL, CYNRYCHIADOL NEU BREIFAT ATWRNAI CYFFREDINOL AC NI FYDD GAN Y CYFLAFAREDDWR AWDURDOD I FWRW YMLAEN AR SAIL GYFUNOL, GYNRYCHIADOL NA PHREIFAT ATWRNAI CYFFREDINOL.** Os ceir bod unrhyw ddarpariaeth o'r cytundeb i gyflafareddu yn yr Adran 9 yma yn anorfodadwy, bydd y ddarpariaeth anorfodadwy yn cael ei thorri a'r telerau cyflafareddiad sy'n weddill yn cael eu gorfodi (ond ni fydd cyflafareddiad atwrnai cyffredinol cyfunol, cynrychiadol na phreifat mewn unrhyw achos). Heb ystyriaeth i unrhyw statud neu gyfraith i'r gwrthwyneb, rhaid gwneud hysbysiad ar unrhyw hawliad yn deillio o neu'n ymwneud â'r Telerau hyn o fewn un (1) flwyddyn wedi i hawliad o'r fath godi neu bydd wedi ei wahardd am byth. I ddibenion yr Adran 9 yma, bydd y Telerau hyn a thrafodion perthynol yn amodol i ac wedi eu llywodraethu gan y Ddeddf Cyflafareddiad Ffederal, 9 U.S.C. ad. 1-16 (FAA).

**Sylwer:** Trwy gytuno i'r Telerau hyn, rydych chi'n cytuno'n benodol fod unrhyw hawliadau neu weithredoedd sydd gennych chi fel arall yn erbyn SMG dan gyfreithiau unrhyw awdurdodaeth tu allan i'r Unol Daleithiau wedi eu hildio yma, yn cynnwys heb gyfyngiad unrhyw hawliadau neu weithredoedd dan gyfreithiau eich gwlad eich hun, ac mai'ch unig leoliad a chyfraith berthnasol ar gyfer unrhyw anghydfodau yw yn yr Unol Daleithiau yn ôl telerau'r Adran 9 yma.

## **10. GWOBRAU**

O bryd i'w gilydd, gall SMG gynnig cyfle i chi dderbyn gwobrau, fel pwyntiau gwobr, gostyngiadau neu gynigion gwobrau, gostyngiadau neu gynigion arbennig (yn gyfunol "**Gwobrau**"). Byddwn yn eich hysbysu pan fydd Gwobrau ar gael i chi trwy Wasanaethau SMG. Gall buddion Gwobrau amrywio ac felly hefyd y cyfnod dilysrwydd, felly gwiriwch fanylion pob Gwobr wrth i chi ei derbyn. Ar gyfer SurveyMini, wedi deg a phedwar ugain (90) niwrnod o ddiffyg gweithgarwch, bydd eich pwyntiau gwobr yn darford. Mae eich Gwobrau ar gyfer eich defnydd personol chi. Ni allwch drosglwyddo, neilltuo, gwerthu, masnachu na chyfnewid eich Gwobrau. Oni bai ei bod yn ofynnol dan y gyfraith, ni ellir cyfnewid Gwobrau am arian parod ac ni ellir eu cyfuno gydag unrhyw hyrwyddiad, gynnig na ostyngiad arall gan SMG neu gleient. Ni roddir unrhyw greddyd nac ad-daliad am unrhyw reswm wedi i chi wario eich Gwobrau. Mae SMG yn cadw'r hawl i addasu, terfynu neu atal argaeledd Gwobrau. Rydych chi'n cytuno i gael eich rhwymo gan benderfyniadau SMG sy'n derfynol a rhwymol ym mhob mater parthed Gwobrau.

## **11. DIWEDDARIADAU I RAGLENNI SYMUDOL**

O bryd i'w gilydd (yn ôl ein doethineb llwyr) rydym yn datblygu a darparu diweddariadau ar gyfer ein rhaglenni symudol, a allai gynnwys uwchraddiadau, trwsio chwilod, cyweirio a chywiriadau eraill i wallau ac/neu nodweddion newydd (yn gyfunol, "**Diweddariadau**"). Gall diweddariadau hefyd addasu neu ddileu yn eu cyfanrwydd rai nodweddion a swyddogaethau penodol. Rydych chi'n cytuno nad oes unrhyw oblygiad i SMG ddarparu unrhyw Ddiweddariadau na pharhau i ddarparu neu alluogi unrhyw nodweddion neu swyddogaethau penodol.

Yn seiliedig ar osodiadau eich dyfais symudol, pan fydd eich dyfais symudol wedi cysylltu i'r Rhyngwrdd naill ai: (a) bydd y Diweddariadau yn lawrlwytho a gosod yn awtomatig; neu (b) gallwch dderbyn hysbysiad o neu gael eich ysgogi i lawrlwytho a gosod Diweddariadau sydd ar gael.

Lawrlwythwch a gosod Diweddariadau yn brydlon. Os na fyddwch, efallai na fydd rhannau o Wasanaethau SMG yn gweithio'n iawn. Rydych yn cytuno hefyd y bydd Diweddariadau yn cael eu pennu i fod yn rhan o Wasanaethau SMG ac yn amodol i holl amodau a thelerau'r Telerau hyn.

## **12. CONTRACTIO ELECTRONIG**

Mae eich gweithred gadarnhaol o ddefnyddio ac/neu gofrestru ar gyfer Gwasanaethau SMG yn cyfateb i'ch cydsyniad i fynd i gyfundeb gyda ni yn electronig.

## **13. CYFYNGIADAU DAEARYDDOL/RHEOLIADAU ALLFORIO**

Mae Gwasanaethau SMG a Chynnwys SMG wedi eu lleoli yn Nhalaith Missouri yn yr Unol Daleithiau ac er y gellir darparu'r ddau ar gyfer mynediad a defnydd gan bersonau wedi eu lleoli tu allan i'r Unol Daleithiau, rydych chi'n cydnabod am resymau cyfreithiol neu weithredol ei bod yn bosibl na fyddwch yn gallu cyrchu Gwasanaethau SMG neu Gynnwys SMG yn eich awdurdodaeth. Os byddwch yn cyrchu Gwasanaethau SMG neu Gynnwys SMG o du allan i'r Unol Daleithiau, rydych chi'n gyfrifol am gydymffurfiaid gyda chyfreithiau lleol, yn cynnwys cyfreithiau lleol parthed mewnforio, allforio neu ail allforio Cynnwys SMG.

Gallai Gwasanaethau SMG fod yn amodol i gyfreithiau rheoli allforion mewn gwledydd penodol, yn cynnwys Deddf Gweinyddu Allforion yr Unol Daleithiau a'i rheoliadau cysylltiedig. Rydych yn cytuno y byddwch yn cydymffurfio gyda chyfreithiau a rheoliadau o'r fath, ac na fyddwch, yn uniongyrchol na'n anuniongyrchol, yn allforio, ail allforio neu ryddhau Gwasanaethau SMG i, neu'n gwneud Gwasanaethau SMG yn hygyrch o, unrhyw awdurdodaeth neu wlad ble mae allforio, ail allforio neu ryddhau wedi ei wahardd gan gyfraith, rheol neu reoliad. Rydych yn cytuno hefyd y byddwch yn cydymffurfio gyda phob cyfraith ffederal berthnasol, rheoliadau a rheolau, ac yn cwblhau'r holl ymrwymadau gofynnol (yn cynnwys unrhyw drwydded allforio neu gymeradwyaeth lywodraethol arall gofynnol), cyn allforio, ail allforio neu ryddhau neu wneud Gwasanaethau SMG ar gael fel arall tu allan i'r Unol Daleithiau. Yn atodol, trwy lawrlwytho unrhyw Gynnwys SMG, rydych chi'n cytuno nad ydych chi mewn gwlad ble mae allforio o'r fath wedi ei wahardd, ac nad ydych chi ar Dabl yr Unol Daleithiau o Orchmynion Gwrthod yr Adran Fasnach na rhestr Adran Drysorlys yr Unol Daleithiau o Wladolion Penodedig Arbennig.

## **14. HAWLIAU LLYWODRAETH UDA**

Mae Gwasanaethau SMG yn feddalwedd cyfrifiadurol masnachol, fel y diffinnir yn 48 C.F.R. §2.101. Felly, os ydych chi'n asiantaeth i Lywodraeth yr Unol Daleithiau neu unrhyw gontractwr iddi, rydych chi yn erbyn yr hawliau hynny parthed Gwasanaethau SMG fel y rhoddir i bob defnyddiwr arall yn unig dan drwydded, yn unol ag (a) 48 C.F.R. §227.7201 hyd 48 C.F.R. §227.7204, parthed yr Adran Amddiffyn a'u contractwyr, neu (b) 48 C.F.R. §12.212, parthed pob trwydded arall Llywodraeth yr Unol Daleithiau a'u contractwyr.

## **15. TERFYNU**

Yn ôl ei ddoethineb llwyr, gall SMG addasu neu derfynu Gwasanaethau SMG, neu gall addasu, atal neu derfynu eich cyfrif neu fynediad at Wasanaethau SMG, gyda neu heb rybudd i chi, ar

unrhyw adeg am ba bynnag reswm, heb atebolrwydd i chi nac unrhyw drydydd parti. Er enghraifft, gellir terfynu eich Cyfrif a gwrthod mynediad i chi i Wasanaethau SMG, gyda neu heb rybudd, os oes gan SMG reswm i gredu eich bod yn blentyn. Fel enghraifft arall, gall SMG derfynu eich Cyfrif a'ch gallu i ddefnyddio Gwasanaethau SMG, gyda neu heb rybudd, os oes gan SMG reswm i gredu eich bod wedi darparu gwybodaeth anwir, anghyflawn neu anghywir, neu wedi methu cydymffurfio mewn ffordd arall gyda'r Telerau hyn neu unrhyw Delerau Atodol perthnasol.

Rydych yn cytuno i ddychwelyd neu ddinistrio unrhyw gopïau o Ddeunyddiau Safle a wnaethoch os byddwn yn gofyn i chi wneud hynny.

Ni fydd terfyniad yn cyfyngu ar unrhyw hawliau neu unioniadau eraill SMG. Bydd y Telerau hyn yn benodol yn goroesi, ac yn dal yn weithredol, er gwaethaf unrhyw addasiad, amhariad, ataliad ac/neu derfyniad o'r fath.

## **16. HAWLIADAU O DORRI HAWLFRAINT**

Mae SMG yn parchu hawliau eiddo deallusol eraill. Rydym yn ymateb i hysbysiadau o dor honedig fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Hawlfraint y Mileniwm Digidol yr Unol Daleithiau ("**DMCA**"), yn cynnwys, ble fo'n briodol, trwy dynnu neu analluogi mynediad i ddeunydd a honnir i fod yn destun gweithgaredd troseddu.

Os ydych chi'n credu'n ffyddiog bod eich gwaith wedi ei gopïo mewn modd sy'n cyfateb i dorri hawlfraint neu y troseddwyd ar eich hawliau eiddo deallusol yn neu trwy Wasanaethau SMG, anfonwch eich hawliad neu hysbysiad o drosedd at ein hasiant DMCA trwy naill ai bostio at:

DMCA Agent  
Service Management Group, LLC  
1737 McGee Street  
Kansas City, MO 64108

Neu anfon e-bost at:

[privacyofficer@smg.com](mailto:privacyofficer@smg.com)

Rhaid i'ch hysbysiad gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- a. llofnod corfforol neu electronig gan rywun sydd wedi ei awdurdodi i weithredu ar ran perchennog hawl unigryw yr honnir y troseddwyd yn ei erbyn;
- b. nodi'r gwaith dan hawlfraint y troseddwyd yn ei erbyn, neu, os oes gweithiau hawlfraint lluosog ar un safle ar-lein unigol wedi eu cynnwys mewn un hysbysiad, rhestr gynrychiadol o weithiau o'r fath ar y safle hwnnw;
- c. nodi'r deunydd yr honnir i fod yn troseddu neu i fod yn destun gweithgaredd troseddu ac sydd i'w dynnu neu y dylid analluogi mynediad ato, a gwybodaeth sy'n rhesymol ddigonol i ganiatáu i'r darparwr gwasanaeth leoli'r deunydd;
- d. gwybodaeth sy'n rhesymol ddigonol i ganiatáu i'r darparwr gwasanaeth gysylltu â'r parti sy'n cwyno, fel cyfeiriad, rhif ffôn ac, os ar gael, cyfeiriad post electronig ble gellir cysylltu â'r parti sy'n cwyno;
- e. datganiad bod y parti sy'n cwyno yn credu'n ffyddiog nad yw defnydd o'r deunydd yn y modd yr achwynir amdano wedi ei awdurdodi gan berchennog yr hawlfraint, ei asiant neu'r gyfraith; a

- f. datganiad fod yr wybodaeth yn yr hysbysiad yn gywir, a dan gost anudoniaeth, fod y parti sy'n cwyno wedi ei awdurdodi i weithredu ar ran perchennog hawl unigryw yr honnir y troseddwyd yn ei herbyn.

Dim ond i hysbysiadau ac ymholiadau sy'n cydymffurfio gyda gofynion y DMCA fydd ein Hasiant DMCA yn ymateb. Gweler [www.copyright.gov](http://www.copyright.gov) i gael mwy o wybodaeth.

## 17. GWYBODAETH I BRESWYLWYR CALIFFORNIA

Dan God Sifil Califfornia Adran 1789.3, mae'n ofynnol i ni ddarparu'r wybodaeth hawliau defnyddwyr penodol ganlynol i breswylwyr Califfornia:

- a. Mae Gwasanaethau SMG yn eiddo i ac/neu wedi gweithredu gan Service Management Group, LLC, 1737 McGee Street, Kansas City, MO 64108. Rhif ffôn cyswllt SMG yw 1-800-764-0439;
- b. oni bai y nodir yn benodol fel arall, darperir Gwasanaethau SMG heb dâl;
- c. i gyflwyno cynw parthed Gwasanaethau SMG neu i dderbyn rhagor o wybodaeth am ddefnydd o Wasanaethau SMG, anfonwch lythyr at Service Management Group, LLC, Attn: Data Protection Officer, 1737 McGee Street, Kansas City, MO 64108 neu cysylltwch â ni trwy e-bost at [privacyofficer@smg.com](mailto:privacyofficer@smg.com) (gyda "California Resident Request" fel Llinell Destun). Gallwch hefyd gysylltu ag Uned Cymorth Cwynion Adran Gwasanaethau Defnyddwyr Adran Materion Defnyddwyr Califfornia yn ysgrifenedig yn 400 R Street, Suite 1080, Sacramento, California 95814 neu trwy ffonio 916.445.1254 neu 800.952.5210.

## 18. AMRYWIOL

- a. Mae'r Telerau hyn a'r polisiau preifatrwydd a restrir ar y safleoedd perthynol yn cynnwys y ddealltwriaeth gyfan gan ac ymysg SMG a chi parthed materion a gynhwysir yma.
- b. Ysgrifennwyd y Telerau hyn yn Saesneg. Bydd y Cytundeb Saesneg yn rheoli ym mhob agwedd. Bydd unrhyw fersiynau o'r Cytundeb hwn mewn ieithoedd eraill er hwylustod yn unig ac ni fyddant yn rhwymol ar y naill barti.
- c. Mae'r Telerau hyn yn cyfarwyddo i fudd a byddant yn rhwymol ar SMG a'ch olynwyr a rhai a neilltuir, yn y drefn honno.
- d. Gall SMG neilltuo'r Telerau hyn, ond ni allwch chi eu neilltuo heb gydsyniad ysgrifenedig blaenorol SMG.
- e. Os bydd unrhyw ddarpariaeth yn y Telerau hyn yn dod yn amhosibl i'w gorfodi neu'n annilys, bydd y darpariaethau sy'n weddill yn parhau gyda'r un effaith a phe byddai darpariaeth na ellir ei gorfodi neu annilys o'r fath heb ei defnyddio.
- f. Os yw SMG neu chi yn methu cyflawni unrhyw rwymedigaeth dan y Telerau hyn, ac nad yw'r parti arall yn gorfodi rhwymedigaeth o'r fath, ni fydd methiant i orfodi ar unrhyw achlysur yn cyfateb i ildiad o unrhyw rwymedigaeth ac ni fydd yn atal gorfodi ar unrhyw achlysur arall.
- g. Ni fydd unrhyw beth yn y Telerau hyn yn cael ei bennu i ansoddi SMG na chi fel asiant neu gynrychiolydd y llall neu fel mentrwyr ar y cyd neu bartneriaid.
- h. Os yw SMG neu chi wedi eich atal rhag cyflawni neu'n methu cyflawni unrhyw rwymedigaeth dan y Telerau hyn oherwydd unrhyw achos tu hwnt i reolaeth resymol y parti sy'n arddeisyf y ddarpariaeth hon, bydd perfformiad y parti a effeithiwyd yn cael ei ymestyn hyd cyfnod yr oedi neu anallu i berfformio oherwydd achos o'r fath.
- i. Mae penawdau a chapsiynau er hwylustod yn unig.

**CWESTIYNAU?**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch y Telerau Defnyddio hyn neu Wasanaethau SMG, cysylltwch â ni yn [privacyofficer@smg.com](mailto:privacyofficer@smg.com).

Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn:  
Service Management Group, LLC  
Attn: Swyddog Diogelu Data  
1737 McGee Street  
Kansas City, MO 64108

®/TM nodau masnach © Service Management Group, LLC 2017. Cedwir pob hawl.